COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A GYNHALIWYD DDYDD IAU 15 TACHWEDD 2007 YN NHŶ CARADOG, 1-6 PLAS SAN ANDREAS, CAERDYDD CF10 3BE

Comisiwn	Ysgrifenyddiaeth
Mr D H Roberts (Cadeirydd)	Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mrs S Smith	Mr S Halsall
Y Parch. H Davies	Mr D Carr
	Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)
	Mr M Usher
	Mrs A Butler

Croesawodd y Cadeirydd Mr Usher a Mrs Butler i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol gan na allent fod yn bresennol yn y cyfarfod.

1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd 14 Mehefin 2007.

1.1 Cafodd y rhain eu cytuno a'u mabwysiadu yn ddarostyngedig i fân ddiwygiadau.

2. Materion yn codi.

2.1 Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi ysgrifennu at uwch bartner cyfrifwyr y Comisiwn gan dynnu ei sylw at faterion a ddeilliodd o archwiliad 2006-07 o ran cyflwyno'r cyfrifon drafft a'r camgymeriadau yn y llyfr arian. Cafwyd ateb oddi wrth yr uwch bartner yn addo ymdrin â'r materion y tynnwyd sylw atynt. Yn ogystal â hyn, gweithredwyd newid o ran y personél sy'n ymdrin â chyfrifon y Comisiwn.

2.2 Adroddwyd bod David Wood (SAC) wedi ymweld â'r Comisiwn ac wedi asesu'r cynnydd o ran y meddalwedd cyfrifo Sage. Sefydlwyd y gallai Sage wasanaethu fel llyfr arian ar gyfer y Comisiwn a bod y Rheolwr Ariannol yn ymgymryd â chyfriflenni cysoni misol y banc ac y byddai hyn o gymorth wrth ddilysu'r ffigurau ar gyfer cyfrifon diwedd y flwyddyn.

2.3 Adroddodd yr Ysgrifennydd fod cynnwys y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol wedi'u cytuno â'r Isadran Noddi. Fodd bynnag, roedd ymgynghorydd cyfreithiol y Comisiwn wedi nodi bod gofyn gwneud sawl newid o ran y ddeddfwriaeth. Roedd Swyddfa Cydymffurfiaeth y Cynulliad yn asesu'r newidiadau arfaethedig ar hyn o bryd a gobeithiwyd cyhoeddi'r fersiwn derfynol yn fuan.

2.4 Adroddwyd y byddai fersiwn wedi'i diweddaru o'r Memorandwm Cytundeb rhwng y Comisiwn, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod nesaf Comisiwn Ffiniau Cymru ym mis Rhagfyr. Fodd

bynnag, nodwyd bod Comisiwn Ffiniau Lloegr yn ddiweddar wedi ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch ei Femorandwm Cytundeb â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a gallai canlyniad hynny olygu y byddai angen newidiadau pellach i Femorandwm Cytundeb y Comisiwn.

3. Adroddiad Sicrwydd Ychwanegol a Llythyr Rheoli.

3.1 Adroddodd Mr Usher fod cyfrifon 2006-07 y Comisiwn wedi'u cymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru â barn archwiliadol ddiamod. Esboniodd Mrs Butler fod y Llythyr Rheoli yn casglu canfyddiadau allweddol archwiliad 2006-07. Crynhoir y canfyddiadau hyn yn rhan gyntaf yr adroddiad ac fe'u cymerwyd o ISA 260 a gyflwynwyd i'r Aelodau yng Nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio. Y canfyddiadau oedd nad oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu hunioni yn y cyfrifon, bod angen gwelliannau o ran paratoi'r llyfr arian a chyfriflenni cysoni'r banc ac ansawdd y datganiadau ariannol drafft. Gosodwyd y canfyddiadau hyn yn Atodiad 1 o'r Adroddiad gan gynnwys, yn fwy manwl, faterion a gododd o archwiliad 2006-07. Yn ogystal, roedd Atodiad 1 hefyd yn cynnwys pryderon ynghylch y cynnydd a wnaed gan y Comisiwn o ran rhoi meddalwedd Sage ar waith.

3.2 Dywedwyd yn y Lythyr Rheoli bod adnoddau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, ym mhob agwedd berthnasol, wedi'u defnyddio'n gywir ac wedi'u cyfrifo amdanynt a bod y Gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad bod rheolaethau effeithiol wedi'u gweithredu. Yn ogystal, nodwyd bod y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi cydymffurfio â'r gofynion a geir yn y Datganiad Rheolaeth a'r Memorandwm Ariannol. Canfu Gwasanaethau Archwilio Mewnol fod cynnydd wedi'i wneud o ran rhoi holl argymhellion archwiliad y llynedd ar waith, er bod lle i wella o hyd o ran gweithdrefnau ar gyfer cynnal y llyfr arian. Ni chafwyd unrhyw dwyll neu anghysondebau ariannol a chofnodwyd mân golled yn gywir.

3.3 Nododd Archwilio Mewnol achlysur pan gynhaliodd y Comisiwn gyfarfod bwrdd tendr heb fod aelod allanol yn bresennol i roi barn annibynnol. Esboniodd yr Ysgrifennydd nad hyn oedd y drefn arferol ar gyfer bwrdd tendro'r Comisiwn a'i fod wedi digwydd oherwydd nad oedd swyddog Llywodraeth Cynulliad Cymru, a oedd yn ymgymryd â'r ddyletswydd hon fel arfer, ar gael ar y pryd, ac ni allwyd dod o hyd i eilydd addas ar fyr rybudd. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn sicrhau y byddai pob bwrdd tendr yn y dyfodol yn cynnwys aelod allanol.

3.4 Dywedodd Mr Usher fod ail ran yr adroddiad yn ymdrin â'r Adroddiad Sicrwydd Ychwanegol a oedd yn 2006-07, yn cynnwys Creu'r Cysylltiadau, sef menter Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd SAC wedi cychwyn astudiaeth yn cynnwys pa mor dda oedd cyrff yn y sector cyhoeddus wedi'u paratoi ar gyfer cyflwyno egwyddorion 'Creu'r Cysylltiadau' a hefyd i arolygu'r cynnydd o ran ei rhoi ar waith. Roedd y cam cyntaf wedi cychwyn trwy weithdai ar gyfer cyrff cyhoeddus a gynhaliwyd gan SAC i archwilio sut roeddent yn cydweithio ar hyn o bryd, pa rwystrau oedd yn y ffordd rhag gwella'r sefyllfa bresennol a'r camau angenrheidiol i symud y fenter hon yn ei blaen. Mynychodd y Comisiwn weithdy'r SAC ym mis Gorffennaf ac roedd wedi llenwi holiadur hunanasesu er mwyn asesu eu cynnydd hyd yn hyn. Cyflwynwyd crynodeb o'r hunanasesiad ar dudalen 8 o'r adroddiad a nodwyd bod y Comisiwn yn ystyried ei fod yn

‘Datblygu’ ym mhob rhan o’r fenter. Dywedodd Mr Usher ei fod yn ystyried bod hon yn sefyllfa hollol dderbyniol ar ddechrau’r fenter a byddai’r ymarfer yn cael ei ailadrodd mewn dwy flynedd ac ar adeg honno, byddai’r SAC yn disgwyl gweld gwelliant.

3.5 Mae Atodiad 2 yr adroddiad yn amlinellu’r pedair rhan allweddol a ddefnyddiwyd yn ystod y gweithdy i gasglu gwybodaeth am y cynnydd a gyflawnir. Y rhain oedd – Gweithio gyda’n gilydd fel Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru; Gwneud defnydd gwell o adnoddau; Rhoi defnyddiwr y gwasanaeth yn y canol; a Pharatoi a datblygu’r gweithlu. Cyflwynodd Mr Usher bapur yn crynhoi’r rhannau mwyaf cyffredin a nodwyd gan gyrff cyhoeddus fel rhwystrau rhag gwneud cynnydd a’r camau gweithredu a nodwyd i oresgyn y rhwystrau hyn. Bwriad y SAC oedd trafod y materion hyn â phwyllgorau archwilio’r holl gyrff cyhoeddus er mwyn parhau â’r cynnydd.

3.6 Nododd y Cadeirydd argymhellion archwilio’r SAC yn Atodiad 1 o’r adroddiad a dderbyniwyd gan y Comisiwn. Mynegodd aelodau’r Pwyllgor bryder y gallai’r gofynion cynyddol ar system ariannol y Comisiwn olygu bod adnoddau yn cael eu dargyfeirio o waith arolygu ar adeg pan fyddai angen i’r arolwg etholiadol gael y flaenoriaeth bwysicaf. Dywedodd Mr Usher y dylai gofynion y gwaith ariannol wastatáu ac ni fyddai angen gymaint o fewnbwn arnynt bellach. Ystyriodd y Pwyllgor y byddai’n ddefnyddiol, yn enwedig o ystyried y fenter ‘Creu’r Cysylltiadau’ i gysylltu â Chyrff Cyhoeddus bychan eraill a Noddir gan y Cynulliad fel Cyngor Celfyddydau Cymru neu Amgueddfa Genedlaethol Cymru er mwyn canfod a fyddai modd rhannu eu gwasanaethau a’u sgiliau ariannol. **Cytunwyd** y byddai’r Ysgrifennydd yn ysgrifennu at y sefydliadau hyn i godi’r mater hwn gyda hwy.

3.7 Ystyriodd y Pwyllgor y dylai holiadur Creu’r Cysylltiadau gael ei gynnwys yn y deunydd ymsefydlu ar gyfer Comisiynwyr newydd. Ystyriwyd hefyd y byddai adegau pan na fyddai’n ddymunol i’r Comisiwn gydweithio â sefydliadau eraill pan fyddai gweithredu felly yn gwrthdaro â statws annibynnol y Comisiwn. Dywedodd Mr Usher fod y mater hwn wedi’i godi gan rai sefydliadau cyhoeddus eraill a byddai’r system sgorio yn ymwybodol o’r cyd-destun ac yn ystyried gofynion o’r fath.

3.8 O ran system TG y Comisiwn, ystyriwyd y byddai angen atgoffa Llywodraeth Cynulliad Cymru ei bod yn ofynnol ar y Comisiwn ei newid mewn pryd ar gyfer cychwyn yr arolwg etholiadol er mwyn gorffen yr arolwg erbyn 2012. Adroddodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi ysgrifennu at lywodraeth Cynulliad Cymru i bwysleisio’r gofyniad hwn. **Cytunwyd** os na cheir ymateb yn fuan, y byddai angen i’r Comisiwn ystyried ysgrifennu llythyr oddi wrth Gadeirydd y Comisiwn at Yr Ysgrifennydd Parhaol.

4. Arolygu’r Gofrestr Risgiau.

4.1 Adroddwyd bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi ymgymryd ag arolwg o Gofrestr Risgiau’r Comisiwn ac wedi cynhyrchu fersiwn ddrafft ddiwygiedig. Gwnaed hyn mewn ymateb i argymhelliad a wnaethpwyd gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol y dylai’r Comisiwn gynnal arolwg o’r fath gan gyfeirio at Arweiniad Hanfodion Risg diweddar Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nododd y Comisiwn Gofrestr Risgiau ddrafft a gynhyrchwyd mewn fformat a oedd yn ymgorffori newidiadau a gynigiwyd yn yr Arweiniad Hanfodion Risg. **Cytunwyd** y dylid mabwysiadu’r fformat hwn ar gyfer Cofrestr Risg y Comisiwn yn y dyfodol.

4.2 Adroddwyd bod yr Arweiniad Hanfodion Risg yn argymell y dylai sefydliadau fabwysiadu cofrestr 'Prif Risgiau' corfforaethol yn ogystal â'r Gofrestr Risg Adrannol. Lluniwyd cofrestr 'Prif Risgiau' ddrafft i'r Comisiwn ac esboniwyd mai ei phwrpas fyddai sicrhau bod aelodau yn ymwybodol o'r prif risgiau a wynebir gan y Comisiwn a dylid eu harolygu yn chwarterol. **Cytunwyd** y dylid mabwysiadu hyn ynghyd ag ymgorffori'r canlynol:

i) Yr oedi posibl o drawsnewid system TG y Comisiwn gan Merlin;
ii) Recriwtio aelodau staff (a ddylai gael ei ystyried hefyd yn risg ar raddfa gyffredinol uwch yn y Gofrestr Risg Adrannol);
iii) Amseroldeb cyhoeddi arolwg Cyfarwyddiadau a Gorchmynion Llywodraeth Cynulliad Cymru;
iv) Yr oedi wrth benodi Aelodau newydd y Comisiwn.

5. Newid i'r Partner Ymgysylltu Archwilio Allanol

5.1 Esboniodd Mr Usher fod pryderon y Comisiwn ynghylch y newid i'r trefniadau archwilio wedi'u codi gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru a ystyriodd hwy yn drwyadl. Fodd bynnag, penderfynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod y newid yn angenrheidiol ac y byddai'n mynd yn ei flaen. Dywedodd Mr Usher y byddai'n gofyn i bartner ymgysylltu archwilio newydd y Comisiwn, John Golding, ddod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio. Mynegodd aelodau'r Pwyllgor eu siom fod y newid i fynd yn ei flaen yn enwedig o ystyried y newidiadau arfaethedig i'r cyfrifon blynyddol a ddygwyd gan y Trysorlys. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r newid yn effeithio ar lefel y ffioedd archwilio. Dywedodd Mr Usher nad oedd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn disgwyl gweld codiad yn y ffioedd o ganlyniad i'r newid.

6. Cwynion (eitem sefydlog)

6.1 Ni chafwyd unrhyw gwynion ers y cyfarfod diwethaf.

7. Unrhyw Fater Arall

7.1 Nid oedd unrhyw fater arall.